COFNODION DRAFFT Y CYNGOR: Busnes Agored
12.30 p.m., Dydd Gwener 1 Medi 2017
Canolfan Dylan Thomas, Somerset Place, Abertawe SA1 1RR

1. Yn Bresennol ac Ymddiheuriadau

1.1 Yn Bresennol: John Graystone (yn Cadeirio), Chris Franks, Gerry Jenson, Cathy Clark, June Jeremy, Sonia Reynolds (Is-Gadeirydd), Dafydd Rhys, Toni Schiavone (Is-Gadeirydd), Heather Willbourn. Roedd cworwm yn bresennol trwy gydol y cyfarfod.
1.2 Ymddiheuriadau: Kaitlin Crisp, David Elis-Williams, Caroline Davies, Gayle Hudson, Marjorie Williams, Nick Taylor, Iwan Hywel.
1.3 Yn Absennol: Glenys Hughes-Jones.
1.4 Yn Bresennol Hefyd: Kathryn Robson (Prif Weithredwr Dros Dro), Mark Baines (Pennaeth Cyllid ac Adnoddau), Cath Hicks (Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu'r Gweithlu), Stephen Thomas (Clerc), Steffan Wiliam (Cyfieithydd ar y pryd).

Busnes Cyfrinachol y Cyngor ar 1 Medi 2017– gweler cofnodion 2 i 5 yn gynwysedig, wedi'u cofnodi ar wahân.

Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 6 i 8 yn gynwysedig.

6. Cofnodion Busnes Agored cyfarfod y Cyngor ar 24 Gorffennaf 2017 a materion yn codi nad oeddent ar yr agenda

Cafodd cofnodion Busnes Agored cyfarfod diwethaf y Cyngor, a gynhaliwyd yng Nglyn Ebwy, eu cymeradwyo'n gofnod cywir. Roedd dau fater yn codi:

Cofnod 5 – Diweddariad am safle Coleg Harlech: roedd y gostyngiad mewn staff a chostau cysylltiedig yn ymwneud â'r safle o 1 Awst 2017 ymlaen wedi cael eu rhoi ar waith. Roedd cyfanrwydd a sychder y llyfrgell yn cael eu cynnal ac roedd y symud i adeilad y theatr ar y gweill ar gyfer anghenion ein blwyddyn academaidd newydd. O blith y sefydliadau a oedd wedi mynegi diddordeb yn y safle, y sefydliad mwyaf gweithgar erbyn hyn oedd Snowdonia Aerospace LLP, yn gysylltiedig â'i fusnes dronau ar faes awyr cyfagos Llanbedr a'i anghenion hyfforddiant (ac, o bosibl, llety).

Cofnod 5 – Cytundeb ffurfiol drafft â TUC Cymru: roedd y cytundeb arfaethedig yn destun newidiadau a thrafod terfynol o hyd, felly byddai bellach yn cael ei roi gerbron cyfarfod y Cyngor yn Wrecsam ddiwedd Medi.

7. Cyfarfod y Grŵp Ymgyrchu ar 31 Awst 2017

Cyflwynwyd nodyn crynodeb yn sgil cyfarfod y Grŵp Ymgyrchu y diwrnod blaenorol yng Nghaerdydd. Disgrifiodd Sonia Reynolds gefndir y corff ad hoc hwn, a'i ymdrechion llwyddiannus wrth ymgyrchu cyn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2016. Roedd y grŵp wedi cyfarfod er mwyn paratoi neges graidd i'w defnyddio i ymateb i Adolygiad Llywodraeth Cymru o Ddysgu

Oedolion yn y Gymuned a'r opsiynau a ddeilliodd ohono a oedd yn cael eu hystyried. Cytunwyd y byddai Jeremy Gass (cyn aelod o Gyngor WEA Cymru) yn drafftio briff i'r Grŵp, yn croesawu'r Datganiad Polisi diweddar ar Ddysgu Oedolion, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, ac yn amlygu'n cryfderau yn gysylltiedig â'r blaenoriaethau yn y Datganiad. Y bwriad oedd cyflwyno drafft terfynol o'r briff hwnnw i'r Cyngor yn ei gyfarfod ddiwedd Medi. Gweithgareddau eraill a awgrymwyd oedd cyfarfod â chynrychiolwyr awdurdodau lleol, fel rhan o weithio ehangach mewn partneriaeth, a sefydlu grwpiau agored a chaeëdig ar Facebook ar gyfer y fenter ymgyrchu hon.

8. Cadarnhad o ddyddiadau'r Cyngor i ddod, ar gyfer y dyddiadur

Cadarnhawyd y ddau a gytunwyd eisoes, gyda'u lleoliadau:

1.00 pm, Dydd Mercher 27 Medi 2017: Canolfan Catrin Finch, Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam
12.30 pm, Dydd Iau 30 Tachwedd 2017: Iard y Cowper, Caerdydd (lleoliad diwygiedig)